# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Tycroes**

**Neuadd St Edmunds**
**Ammanford Road**
**Tycroes**
**Rhydaman**
**SA18 3QJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/10/2023

## Cylch Meithrin Tycroes

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Tycroes |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus â'u cyfoedion a'r staff gofal. Maent yn meithrin cydberthnasau cryf. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn annibynnol ac yn cael dewisiadau a
chyfleoedd i fynegi eu barn gan wybod y bydd eu lleisiau'n cael eu clywed.

Mae'r staff yn brofiadol ac maent yn deall ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant a diogelwch. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gadarnhaol a gofalgar.
Maent yn cynllunio'n dda i fodloni gofynion a diddordebau'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn pennu
canllawiau clir er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Maent yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau i ddiwallu anghenion unigol y plant, dan do ac yn yr awyr agored.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaethau cryf â'r rhieni, gofalwyr a'r gymuned leol. Mae ganddynt system ar waith i adolygu'r gwasanaeth bob blwyddyn.

## Llesiant **Da**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i fynegi barn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus â'r staff gofal a'u cyfoedion. Mae eu dymuniadau, eu teimladau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi, gan sicrhau eu llesiant unigol. Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwybod y gallant ymuno â gweithgareddau grŵp pan fyddant yn barod. Er enghraifft, yn ystod amser canu, gwnaeth rhai o'r plant gyd-ganu o'r ardal chwarae rôl yn hytrach nag ar y mat gyda'u ffrindiau.

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff gofal a'u cyfoedion. Maent yn egnïol ac yn dangos eu bod yn mwynhau eu chwarae. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, ac maent yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn hoffi'r rhyddid i ddewis ardaloedd chwarae o fewn yr ystafell. Mae'r plant yn dysgu i ddeall eu teimladau ac i ddangos boddhad. Er enghraifft, mae'r plant yn chwerthin pan fydd aelod o'r staff yn chwarae pi-po gyda nhw dros y byrddau arddangos. Mae'r plant yn hyderus wrth ddangos y llyfrau y maent yn eu mwynhau i ni ac yn ein gwahodd i ymuno â nhw wrth chwarae.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n hyderus ac yn agored, ac yn cydweithio a chymdeithasu mewn ffordd gyfeillgar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall sut i gymryd eu tro, aros, a rhannu. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff gofal yn dangos bod y plant yn datblygu sgiliau cyfathrebu da. Mae'r plant newydd yn setlo'n gyflym ac yn aros yn agos at y staff y maent wedi meithrin cydberthynas â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau. Maent yn dangos diddordeb a chyffro ac yn mwynhau cymryd rhan mewn tasgau. Er enghraifft, defnyddio cardiau stori fel tocynnau i fynychu sioe ddychmygus sy'n cael ei pherfformio ganddynt, gan ddosbarthu tocynnau i'w ffrindiau. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd da dan do a chânt ryddid i ddewis gweithgareddau a symud o amgylch y lleoliad. Er enghraifft, cwblhau jig-sos, paentio, reidio beic neu chwarae rôl.

Caiff y plant gyfleoedd da a rheolaidd i ddatblygu sgiliau corfforol, sgiliau cymdeithasol a sgiliau emosiynol a gallant ddilyn eu diddordebau yn llwyddiannus. Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth drwy fynd i'r toiled a golchi a sychu eu dwylo. Mae'r plant yn mwynhau ymgymryd â rôl helpwr y dydd, gan ddosbarthu powlenni a chwpanau i'w ffrindiau yn llawn balchder. Mae'r plant yn fedrus wrth arllwys dŵr neu laeth o'r jwg i'w cwpanau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn brofiadol ac yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid cadarn. Er enghraifft, diheintio'r byrddau cyn ac ar ôl amser byrbryd a golchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hyfforddiant diogelu plant a hyfforddiant hylendid bwyd. Mae'r staff yn dilyn canllawiau priodol wrth weini bwyd ac wrth helpu'r plant i fynd i'r toiled. Darperir byrbrydau iach ac mae'r plant yn mwynhau bwyta, sgwrsio a chymdeithasu wrth y bwrdd. Mae'r staff yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n gyson. Maent yn deall y gweithdrefnau diogelu ac yn gallu esbonio trefniadau'r lleoliad yn hyderus.

Mae'r staff yn ymateb mewn ffordd gyson ac yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Maent yn rhyngweithio'n dda iawn ac yn dangos anogaeth, cynhesrwydd a charedigrwydd, yn ogystal â sensitifrwydd i anghenion a phrofiadau'r plant unigol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod pryd i ymyrryd ac yn gallu esbonio'r drefn honno. Maent yn sôn yn llawn balchder am y cynnydd y mae'r plant wedi'i wneud ers dechrau mynychu'r lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddiddordebau unrhyw blentyn newydd ymlaen llaw ac maent yn paratoi adnoddau a theganau a fydd o ddiddordeb i'r plentyn hwnnw ac yn tynnu ei sylw wrth gael ei wahanu oddi wrth ei rieni / gofalwyr.

Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n addas ar gyfer oedran a datblygiad y plant y maent yn gofalu amdanynt. Ceir cyfleoedd da yn ystod amser byrbryd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth y plant. Mae'r staff yn cynllunio'n dda ar gyfer y camau nesaf ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae systemau ar waith ganddynt i ddarparu gofal a chyfleoedd addas i'r plant sydd ag anghenion ychwanegol, os bydd angen gwneud hynny.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r lleoliad yn gweithredu o neuadd yr eglwys a dim ond y lleoliad sy'n defnyddio'r neuadd honno. Mae'n darparu amgylchedd glân, cynnes a diogel. Mae gan y lleoliad lefelau diogelwch da. Caiff ei gadw dan glo yn barhaus, sy'n golygu y gall y plant symud o gwmpas yn annibynnol yn yr ardal dan do. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y caiff asesiadau risg dyddiol a chyffredinol, yn ogystal ag asesiadau risg tân, eu cynnal a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y gymhareb rhwng y staff gofal a'r plant yn gywir a'u bod yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Gall y plant fynd i'r toiledau yn annibynnol, ac mae'r staff gofal yn sicrhau bod trefniadau clir a diogel ar waith. Mae llyfr ymwelwyr, rota, cofrestr plant a chofnodion cofrestru staff ar waith, sy'n sicrhau diogelwch y plant a'r lleoliad.

Mae digon o le yn yr ardal dan do ac mae'n cynnwys dwy ystafell gyfagos. Mae hyn yn golygu y gellir cynnal gweithgareddau chwarae mewn grwpiau bach, yn ogystal â gweithgareddau corfforol fel dawnsio a symud. Mae gan y lleoliad hefyd ardal i storio gwaith papur cyfrinachol, cegin ddynodedig i baratoi byrbrydau ac ardaloedd yn y lobi lle gellir cynnal trafodaethau preifat â'r rhieni, gofalwyr ac ymwelwyr. Ceir ardal awyr agored fawr y tu ôl i'r adeilad. Mae'r ardal honno yn ddiogel ac yn cynnig digon o le ar gyfer cyfleoedd chwarae corfforol, fel beiciau a llithrennau. Mae gardd pili-palod yn y gornel, ac mae cynlluniau ar y gweill i'w datblygu i greu gardd lysiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol o ran camau datblygiad y plant er mwyn sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael i ysgogi eu chwilfrydedd. Mae ardaloedd chwarae penodol wedi'u trefnu fel cornel lyfrau, jig-sos pen-bwrdd, ardal chwarae rôl ac ardal grefftau a pheintio. Gall y plant gael gafael ar yr amrywiaeth eang o deganau ac adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac maent yn awyddus i hybu gwelliant. Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn drefnus a'u bod yn cael eu cadw'n gywir. Maent yn hysbysu AGC am ddigwyddiadau o bwys.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant sy'n cael gofal ganddynt ar waith. Maent yn dilyn prosesau hunanwerthuso. Maent yn llunio adroddiad trylwyr a myfyriol ar ansawdd y gofal, gan ofyn am safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff a'u rhoi ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn er mwyn diogelu'r plant ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith a chaiff gwiriadau addasrwydd eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oes proses rheoli perfformiad ar waith, ac nid yw'r staff na'r arweinwyr yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniadau blynyddol. Nodwyd hyn fel cam er mwyn gwella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau da ar waith i roi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Dywedodd y rhieni wrthym pa mor gefnogol a pha mor hawdd mynd atynt yw'r staff, a chymaint roedd eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn eithriadol o hapus â'r ffordd y caiff annibyniaeth eu plant ei meithrin a'i hannog ac yn teimlo bod eu plant yn ffynnu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn manteisio'n llawn ar yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael ar garreg eu drws i wella dysgu'r plant yn y byd go iawn, fel ymweliadau ag ardal chwarae meddal yr ysgol goedwig a fferm antur.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff a phob arweinydd yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/12/2023